

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 3ydd 2020 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Maldwyn Jones, Dewi Pritchard, Alwyn Jones, Gary Thomas, Bethan Thomas a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Meilir Jones, Gwenda Evans, Iolo Evans, Gwenda Morris a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol isod.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion a dderbyniwyd:-

i) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i ysgubo a glanhau'r gwliau ar y ffordd o bentref Llandderfel i gyfeiriad Henblas ac ar y ffordd o bentref Llanfor i fyny am Llwyn Ci.

ii) Roedd y Peiriannydd Goleuo am drefnu cyfarfod yn Sarnau gyda'r Cyng. Gary Thomas ynglŷn â chael golau stryd ychwanegol ger y neuadd.

iii) Roedd y gweithlu am glirio'r pridd a oedd wedi disgyn o'r clawdd rhwng Penisarmynydd a Ty'n Ffridd, Glanrafon.

iv) Cynghorwyd y Cyngor i gysylltu â'r Adrannau Addysg neu Eiddo ynglŷn â'r tyllau yn y ffordd ger maes parcio Ysgol Bro Tryweryn.

b) Lloches bws newydd Llanfor.

Yn dilyn ymholiadau cafwyd cadarnhad nad oedd y Cyngor Cymuned yn gymwys am unrhyw grantiau cymunedol tuag gostau codi'r lloches. Roedd y clerch yn dal i aros am adborth ysgrifenedig ynglŷn â'r cynllun gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd.

c) Wal Neuadd Sarnau.

Yn dilyn yr ohebiaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Pwyllgor Neuadd Sarnau a'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r wal, derbyniwyd e-bost gan bwyllgor y neuadd yn gofyn os mae cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned oedd atgyweirio'r wal gan fod y les yn eu henw nhw. Yn dilyn trafodaeth gofynnwyd i'r clerch ymateb yn nol yn egluro fod y Cyngor Cymuned yn cydnabod fod y les wedi cael ei wneud yn eu henw nhw ond ar ran pwyllgor y neuadd y gwnaed hyn gan dyma'r drefn arferol gyda chytundebau Cyngor Gwynedd (ym marn Cyngor Gwynedd roedd Cynghorau Cymuned a Thref yn sefydliadau sefydlog dibynadwy). Roedd holl gyfrifoldeb o gynnal a chadw ei hun wedyn yn cael ei basio'n mlaen i bwyllgor rheoli'r neuadd.

ch) Cynllun Maes Parcio/Cyn-doiledau cyhoeddus Llandderfel.

Cafwyd cadarnhad y byddai'n bosib i'r Cyngor Cymuned gyfrannu'n ariannol i gynnal a chadw'r toiledau, o dan y Ddeddf Llesiant 2000, unwaith y byddant wedi cael ei adnewyddu,

d) Mabwysiadu Polisiâu Diogelu Data.

Cytunwyd i fabwysiadu'r polisiâu a ffurflenni dwyieithog ychwanegol a greuwyd gan y clerch;- Polisi toriadau diogelwch data, Cais mynedfa pwnc a Ffurflen hysbysu toriad data.

dd) Adroddiad Bioamrywiaeth.

Cyflwynwyd copi o'r adroddiad bioamrywiaeth a luniwyd gan y Clerch ym mis Rhagfyr.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2020/21. Cafwyd braslun o'r argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Cytunwyd i fabwysiadau'r argymhellion a oedd yn orfodol a nodwyd fod angen i'r cynghorwyr hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer mis Mawrth.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-

C20/0041/04/LL - Lleoli 5 o fodiau glampio sefydlog a gwaith cysylltiol. Tir ger yr B4401, Llanfor.

vi) Materion Ariannol.

a) Cynllun Pensiwn Gweithle.

Derbyniwyd llythyr gan y clerc yn cadarnhau nad oedd yn dymuno ymuno a chynllun pensiwn.

b) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

c) Taliadau

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth)
- 2) CTHEM (TWE)
- 3) Ciltalgarth (torri glaswellt ym mynwentydd Frongoch, Llanfor a Llandderfel)
- 4) Un Llais Cymru (tal aelodaeth)
- 5) Neuadd Llandderfel (costau llogi)
- 6) Neuadd Sarnau (costau llogi)
- 7) Neuadd Mynach (costau llogi)

ch) Ceisiadau Ariannol.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r mudiadau ac elusennau canlynol gan adael arian digonol tu cefn ar gyfer cyfri'r fynwent ac unrhyw wariant annisgwyl a all i'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf:-

- 1) Neuadd Sarnau - £450
- 2) Neuadd Mynach - £450 (Bethan Thomas yn datgan buddiant)
- 3) Neuadd Llandderfel - £450 (Maldwyn Jones yn datgan diddordeb)
- 4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
- 5) Ysgol Ffridd y Llyn - £250
- 6) Cymdeithas Rhieni Ysgol Godre'r Berwyn - £100.00
- 7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100
- 8) CFFI Meirionnydd - £200
- 9) Urdd Gobaith Cymru - Cylch Penllyn - £100
- 10) Cantref - £100
- 11) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100
- 12) Hosbis Tŷ'r Eos - £100
- 13) Ambiwylans Awyr Cymru -£100
- 14) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100
- 15) Eisteddfod Powys - £75
- 16) Nyrsys Marie Curie - £75

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r gwyn canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd.

i) Rose Cottage, ger Pale, Llandderfel - yn ystod y tywydd garw yn ddiweddar roedd dŵr wedi bod yn llifo lawr y ffordd ac roedd y perchnogion wedi gorfod defnyddio bagiau tywod i ddiogelu'r annedd.